**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 2 TACHWEDD, 2021**

**Yn NEUADD BENTREF COED-Y-BRYN, COED-Y-BRYN am 7.30 p.m.**

**Yn bresennol** Cyng. Emyr Jones (cadeirydd)
Cyng. Mark Davies
Cyng. Sharon Thomas
Cyng. Robert Jones
Cyng. Roger Davies
Cyng. Ceri Jones
Cyng. Julie Davies
Cyng. Siân Williams
Cyng. Llŷr Evans

**Ymddiheuriadau** Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**Clerc** Margaret Jones

| Eitem ar yr Agenda | | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.<br>Estynnodd y Cadeirydd groeso i'n dau Gynghorydd newydd i'r cyfarfod (Cyng. Robert Jones a Cyng. Siân Williams) | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. | | |
| 3 | Cofnodion Cyfarfod mis Hydref. | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Hydref. | | |
| 4. | Materion yn Codi | Trefnwyd lle data ychwanegol ar gyfer y gliniadur yn dilyn y cyfarfod diwethaf. | | |
| | | Llofnodwyr NatWest – roedd Cyng. Mark Davies wedi llwyddo i argraffu copi o'r ffurflen Gorchymyn ac roedd Cyng. Emyr Jones wedi nodi ei fanylion ar y ffurflen. Bydd y clerc yn llenwi manylion perthnasol eraill ar-lein ac yn ei chyflwyno. | | |
| | | Roedd Cyng. Mark Davies wedi gwneud ymholiadau am gyflog y Clerc, a chadarnhaodd y dylai cyflog y Clerc fod ar SCP9 - £10.86 yr awr. Anfonir llythyr ymlaen at Ashmole & Co., yn eu hysbysu o'r newid hwn. | **Clerc** | |
| | | Dolenni ar gyfer Cadwyn y Cadeirydd – Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r siop gemwaith yn Aberystwyth ac roedd yn aros am ymateb. Bydd gofyn gwneud ymholiadau pellach am y mater cyn y cyfarfod nesaf. | **Clerc** | |
| 5. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Ceri Jones bod cofnodion cyfarfod mis Hydref yn gywir, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Julie Davies. | | |
| 6. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Dim adroddiad gan nad oedd Cyng. Maldwyn Lewis yn bresennol. | | |

| | |
|---|---|
| 7. Gohebiaeth | Anfonwyd rhestr o'r holl gyrsiau ymlaen i'r holl Gynghorwyr mewn neges e-bost.<br><br>Cafwyd llythyr gan Neuadd Ffostrasol yn amlinellu eu rheoliadau Covid 19 ynghylch defnyddio'r neuadd. Bydd y clerc yn ymateb i'r llythyr, gan nodi ein bod yn gobeithio gallu archebu Neuadd Ffostrasol ar gyfer ein cyfarfod ym mis Ionawr. **Clerc**<br><br>Yn ogystal, cafwyd llythyr gan Ben Lake AS ynghylch y problemau gyda chyfleusterau bancio ac a oedd yn rhoi diweddariad i ni am ei nod o drefnu cyfarfod gyda'r banciau er mwyn cyfleu'r anhawster y mae hyn yn ei achosi yng nghefn gwlad Cymru. |
| 9. Cynllunio | Cafwyd un cais cynllunio – A210904 Melin Maesllyn. Trafodwyd y mater ac roedd pawb a oedd yn bresennol yn cytuno gyda'r cais hwn, ond y dylid nodi yn yr ymateb, gan bod Llwybr Troed Cyhoeddus ger yr eiddo, os bydd angen cau'r llwybr troed tra bod unrhyw waith adeiladu yn cael ei wneud, y dylid rhoi rhybudd i'r cyhoedd ac y dylid gwyro'r llwybr. **Clerc** |
| 10. Ariannol | **Ymchwiliad Archwilio** – nid oedd y Clerc wedi cael unrhyw ohebiaeth ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd. Bydd y clerc yn anfon neges e-bost yn gofyn am ddiweddariad cyn y cyfarfod nesaf.<br><br>**Llofnodwyr NatWest** – Cafwyd trafodaeth a phenderfynwyd y dylai'r Clerc lenwi'r ffurflen ar-lein, gan ychwanegu 2 lofnodwr newydd ar y tro, gan obeithio y byddai'r llofnodwyr yn cael eu derbyn. Ychwanegir Cyng. Mark Davies a Cyng. Ceri Jones. **Clerc**<br><br>**Trosglwyddo Arian –** trosglwyddir £2,000 o'r cyfrif Busnes wrth Gefn i'r cyfrif Cyfredol.<br><br>**Diffibrilwyr** – Bydd Cyng. Mark Davies yn gwneud ymholiadau gyda chapel Bwlch-y-groes a chlwb pêl-droed Ffostrasol ynghylch gosod diffibrilwyr ar eu safleoedd, a bydd yn adrodd yn ôl yn ystod y cyfarfod nesaf. **Cyng. Mark Davies**<br><br>**Taliadau** CThEM - £42.40 (PAYE)<br>Cyflog y Clerc - £170.00<br>Ashmole & Co., - £78.00<br>The Solutions Factory Ltd., - £150.00 a £72.00<br><br>Cynghorwyr Roger Davies a Maldwyn Lewis i lofnodi'r sieciau uchod. **Clerc**<br><br>**Cynllunio'r Gyllideb** – Prynir coed Nadolig ar gyfer pentrefi fel y llynedd. Bydd gofyn cael 5 coeden a gofynnodd y Cadeirydd i Gyng. Sharon Thomas roi pris am y coed. Roedd Cyng. Mark Davies wedi ymchwilio i oleuadau ar gyfer y coed oherwydd bod y goleuadau a ddefnyddiwyd y llynedd wedi peri problemau. Goleuadau rhaff yw'r dewis gorau a chytunodd pawb y dylid prynu 5 set. **Cyng. Mark Davies** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gosodir y **Coed Nadolig** yn eu lle ar 1 Rhagfyr. |
| 11. | Materion Ardal | Llongyfarchiadau i Gyng. Ceri Jones a Lowri ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.<br><br>Rhybuddiodd Cyng. Mark Davies am y ffaith bod papurau £10 ffug yn cael eu cylchredeg yn yr ardal leol, yn enwedig ardal Castellnewydd Emlyn, Llandysul a Cheinewydd.<br><br>Nododd Cyng. Sharon Thomas gyflawniad CFfI Troedyraur yn ddiweddar yn Eisteddfod CFfI ac roedd yr holl Gynghorwyr yn dymuno'n dda iddynt pan fyddent yn cynrychioli'r Sir ar lefel Cymru yn nes ymlaen yn y flwyddyn.<br><br>Yn dilyn y glaw trwm, nododd Cyng. Ceri Jones bod llifogydd i'w gweld ger yr eiddo o'r enw Rhydypentre.<br><br>Adroddodd Cyng. Llŷr Evans bod arwydd rhybuddio 'Tractor' wedi mynd ar goll ger fferm Glan-llyn. Dywedodd y clerc ei bod hi eisoes wedi adrodd am hyn ar gyfleuster CLIC. |
| 13. | Cyfarfod Nesaf. | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 7 RHAGFYR am 7.30 p.m. yn Neuadd Bentref Rhydlewis os bydd y sefyllfa o ran Covid yn caniatáu hynny. Os bydd y sefyllfa yn newid, trefnir cyfarfod dros Zoom ar yr un dyddiad ac amser.<br><br>Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, tynnwyd y cyfarfod at ei derfyn gan y Cadeirydd am 9.00 p.m. |
| 14. | Eitemau ar gyfer y Cyfarfod Nesaf | Ymddiheuriadau<br>Datgelu Buddiannau<br>Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Cyllid – Archwilio<br>    Diweddariad am y Gorchymyn/Llofnodwyr<br>    Taliadau<br>    Cynllunio'r gyllideb<br>Materion Ardal<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |
| 15. | Cyfarfod Nesaf | **NOS FAWRTH, 7 RHAGFYR, 2021** am **7.30 p.m.**<br>yn Neuadd Bentref Rhydlewis. (Gallai'r lleoliad newid os bydd y sefyllfa o ran Covid yn newid). |